Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llansadwrn
# Llansadwrn
# Llanwrda
# Sir Gaerfyrddin
# SA19 8LG

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Daw'r disgyblion tair i un ar ddeg oed i'r ysgol fach hon o bentref Llansadwrn yn yr ardal wledig rhwng Llandeilo a Llanymddyfri.

Undeg pedwar o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol sydd yn yr ysgol a phum disgybl tair a phedair oed. Maent yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gan un athrawes lawn amser a dwy athrawes ran amser. Mae 23% disgybl â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Daw 28% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith yn bennaf, mwy na'r canran a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn 2004. Mae'r ysgol yn datgan fod 78% o blant ar hyn o bryd yn medru siarad Cymraeg a 50% ohonynt yn rhugl. Mae 100% o'r disgyblion o gefndir ethnig 'Gwyn Prydeinig'.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers 1999.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llansadwrn yw £6,463 sy'n cymharu gydag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gâr. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl deuddegfed uchaf o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gâr.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod lefelau cyrhaeddiad a chyflawniad y dysgwyr yn gyson dda;
- lefelau uchel cwrteisi, ymddygiad a chydweithrediad yr holl ddysgwyr;
- yr ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr a gynigir; a'r
- cydweithio clos ac effeithiol rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned leol.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon da ar gyfer gwella oherwydd:

- bod yr arweinyddiaeth yn hybu a rhannu gweledigaeth sy'n sicrhau ymroddiad a chydweithio effeithiol iawn sy'n arwain at addysg o'r safon uchaf posibl i bob disgybl;
- bod partneriaethau wedi datblygu yn effeithiol iawn;
- yr ymateb cryf ac effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol; a'r
- cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn sicrhau gwelliant pellach, mae angen:

A1 i arweinwyr a rheolwyr ffurfioli'r drefn o gofnodi deilliannau cyfarfodydd staff a rheoli perfformiad; a

A2 sicrhau bod adroddiadau hunan-arfarnu yn arfarnol ac yn cydnabod yr agweddau sydd angen eu ddatblygu.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Oherwydd niferoedd y disgyblion mae'n bwysig bod yn ofalus iawn gyda'r data cyrhaeddiad. Gall canlyniadau un disgybl gael effaith arwyddocaol iawn ar berfformiad cyffredinol yr ysgol. Er hynny, dros y tair blynedd diwethaf, mae pob disgybl wedi cyrraedd o leiaf lefel 2 (y lefel disgwyliedig cenedlaethol) ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac o leiaf lefel 4 (y lefel disgwyliedig cenedlaethol) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Yn ogystal, bron bob tro, maent yn cyrraedd y lefel disgwyliedig ym mhob pwnc craidd. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion yr awdurdod lleol, y teulu a Chymru ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion sydd â chanran tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd. Mae hyn yn arbennig o wir am eu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg o ystyried bod pob disgybl yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Mae cynnydd da ar draws y cwricwlwm yn parhau trwy gyfnod allweddol 2.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yng nghyfnod allweddol 1 yn fedrus wrth ddefnyddio'u medrau gwrando a siarad. Maent yn gwneud cynnydd da yn y sgiliau darllen ac ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, gall disgyblion gyd-drafod yn hyderus mewn parau neu grwpiau, a gyda'u hathrawon. Maent yn darllen yn glir a deallus. Mae llawer o enghreifftiau da o waith ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn y Saesneg ar draws y cwricwlwm. Mae dysgwyr yn cynllunio a chynhyrchu eu gwaith ysgrifenedig yn feddylgar ac yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa bynciol.

Dros gyfnod, mae dysgwyr o bob oedran yn datblygu sgiliau rhifedd yn dda. Maent yn dod i ddangos dealltwriaeth gadarn o rif, siâp a gofod. Maent yn cyflawni safonau da mewn sgiliau fel mesur, amcangyfrif a datrys problemau. Datblygant eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn dda, er enghraifft drwy waith gyda graffiau, siartiau a diagramau.

Mae safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta'n iach. Mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn cael eu paratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

Un o gryfderau'r ysgol yw safon uchel iawn o gwrteisi ac ymddygiad yr holl ddisgyblion. Mae datblygiad personol a chymdeithasol a diwylliannol pob plentyn yn dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyfranogiad yn gwersi. Maent yn dangos diddordeb amlwg yn eu gwaith, yn canolbwyntio ac yn cydweithio'n dda wrth ymgymryd â'u tasgau. Maent yn dangos parch, gofal tuag at eraill.

Mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion yn gyson uwch nag ysgolion tebyg a'r cyfraddau cenedlaethol, a phrydlondeb yn dda.

Mae llais y plant yn cael lle amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol. Mae cyngor yr ysgol wedi cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol ac wedi arwain at welliannau. Mae'r cyngor wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at waith elusennol yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod ddiddorol iawn o brofiadau dysgu sy'n ennyn brwdfrydedd disgyblion ac yn eu galluogi i ddysgu. Trwy gynnwys y disgyblion yn y cynllunio mae'r athrawon yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac effeithiol. Gwneir defnydd helaeth o amrywiol ymweliadau addysgol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae cynllunio manwl a strwythuredig iawn yn sicrhau dilyniant a datblygiad da mewn medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Ar yr un pryd, mae hyn yn rhoi sylw priodol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

Mae ffocws cryf iawn ar y Cwricwlwm Cymreig ac mae'r ddarpariaeth yn amrywiol a chyfoethog. Darperir cyfleodd i ddysgwyr ddysgu am ddigwyddiadau pwysig yn hanes Cymru, am fyd natur, amgylchedd a daearyddiaeth Cymru. Rhoddir sylw da i ddiwylliant Cymreig trwy gelf, llenyddiaeth a cherddoriaeth. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo adnabyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol ac am Gymru fel gwlad a chenedl.

Mae'r ysgol yn datblygu sgiliau'r plant yn y Gymraeg yn effeithiol. Mae'r staff i gyd yn cynnig modelau iaith sy'n hyrwyddo datblygiad llythrennedd yn effeithiol iawn.

Mae'r ddarpariaeth yn dda iawn ar gyfer addysg datblygiad cynaliadwy ac wedi ei seilio yar bolisi meddylgar iawn. Hefyd, mae'r ysgol yn sicrhau bod y dysgwyr yn derbyn cyfleoedd da i ddatblygu cydnabyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy amrywiaeth o brosiectau, er enghraifft, gyda Africa a Patagonia, a ffocws mentrus ar ddatblygiadau rhyngwladol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda drwy'r ysgol. Mae yna berthynas fuddiol iawn rhwng y staff a'r disgyblion, sydd yn meithrin dysgu ac yn sicrhau bod disgwyliadau uchel y staff o'r plant yn cael eu cyflawni. Mae dealltwriaeth dda o'r cwricwlwm gan yr athrawon ac maent yn atgyfnerthu hyn gyda chynllunio clir a manwl. Gwneir defnydd da o gwestiynu gan yr athrawon ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Maent hefyd yn gwneud defnydd dychmygol o adnoddau da ac mae dulliau addysgu bywiog yn nodwedd gyson o wersi. Mae athrawon yn cynllunio yn fentrus ac yn effeithiol ar gyfer gwaith gwahaniaethol, yn bennaf ar sail oed ond weithiau ar sail gallu.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir, manwl sy'n dangos llawer o ôl meddwl ar gyfer asesu cynnydd disgyblion. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio yn rheolaidd. Mae'r

athrawon yn cynnig sylwadau adeiladol i ddisgyblion ar lafar ac yn ysgrifenedig gan gynnwys cyngor clir am sut i wella. Defnyddir ystod briodol o asesiadau ac mae athrawon yn defnyddio'r canfyddiadau er mwyn gosod targedau heriol a realistig. Mae adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn ddefnyddiol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu yn dda. Oherwydd eu hadnabyddiaeth arbennig o dda o'r disgyblion, mae'r athrawon yn deall eu hanghenion yn dda ac yn llwyddiannus wrth eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae portffolios gwaith i ddangos safonau y ddisgyblion ar wahanol lefelau yn rhan o drefn dda o safoni gwaith disgyblion gyda'r grŵp o ysgolion eraill yn y cylch.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Mae ethos gynhwysol a gofalgar yr ysgol yn creu awyrgylch deuluol sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae ystod lawn o bolisïau a threfniadau gweithredol ar gyfer hyrwyddo byw yn iach a lles disgyblion. Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mynega'r plant eu bod yn hapus iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Ategir hyn yn gryf gan sylwadau'r rhieni.

Mae'r profiadau dysgu a ddarperir yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r sesiynau cyd-addoli yn datblygu dysgwyr yn foesol ac yn ysbrydol ac yn hybu parch a sensitifrwydd tuag at eraill.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Gwneir defnydd da o gyngor arbenigol yn ôl y gofyn. Mae'r staff yn cynllunio'n gydnaws â chanllawiau'r cod ymarfer ar gyfer cyfnod gweithredu ysgol. Sicrheir bod rhieni yn cymryd rhan weithredol o fewn y broses o greu ac adolygu cynlluniau addysg unigol.

Gwneir defnydd da o'r cyswllt ag asiantaethau eraill wrth ymdrin â materion megis diogelwch a chamddefnydd o gyffuriau. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb ac ymddygiad da yn llwyddiannus iawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn arbennig o dda; mae'n gynhwysol iawn a cheir awyrgylch groesawgar a chynnes. Mae'n gymuned agos a gofalgar iawn sy'n rhoi pwyslais clir ar gydnabod a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd. Ymatebodd 100% o'r disgyblion a'r rhieni yn gadarnhaol fod yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd da, a chadarnhaodd y rhieni bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg a gyda pharch.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau'r cyfle cyfartal i bob disgybl.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cystal ag sy'n bosib o'i hen adeilad. Mae'r arddangosfeydd ar draws yr holl ystafelloedd yn symbylus, lliwgar ac amrywiol. Er mai wyneb tar sydd i'r iard chwarae, mae modd defnyddio cae a maes chwarae'r

gymuned i ychwanegu at y profiadau addysgol. Defnyddir y brif ystafell ddysgu ar gyfer addysg gorfforol ar adeg tywydd anffafriol.

Mae'r toiledau wedi eu lleoli y tu allan i'r prif adeilad. Mae hyn yn anfoddhaol.

Cedwir yr holl safle a'r adeilad yn lân a thaclus

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth a'u gwerthoedd yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn rhoddi pwyslais arbennig ar gynnig profiadau ac amodau ar gyfer gwella cyflawniad disgyblion.

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn cyd-weithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir sy'n cael eu cyflawni'n effeithiol. Cefnogir eu datblygiad proffesiynol parhaus trwy gynnig cyfleoedd rheolaidd o hyfforddiant priodol, o gynnal cyfarfodydd staff ac o reoli perfformiad blynyddol. Nid yw trefn yr ysgol o gofnodi'r deilliannau hyn wedi ei ffurfioli'n ddigonol hyd yma.

Derbynia'r corff llywodraethol adroddiad ysgrifenedig y pennaeth yn dymhorol. Caiff yr adroddiad ei drafod a'i newid yn ôl yr angen. Darpara'r corff gefnogaeth lwyddiannus i'r ysgol yn ei hymdrechion i gynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Mae i'r corff ran yn y broses o hunan arfarnu ac o flaenoriaethu ar gyfer y cynllun gwella ysgol. Fodd bynnag, nid yw ei rôl fel ffrind beirniadol wedi llawn ddatblygu hyd yma.

Mae'r ysgol wedi rhoi sylw dyledus i ystod dda o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Gweithredir y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Datblygir cysylltiadau adeiladol a rheolaidd gydag ysgolion lleol eraill ac fe rennir arfer dda yn arbennig o fewn y Cyfnod Sylfaen. Ymdrechodd yr ysgol yn effeithiol i weithredu'r cynllun Ysgol Iach gan gyrraedd cam 4 ac mae wedi derbyn y wobr efydd yn y cynllun Eco-ysgolion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau pwrpasol ar gyfer hunanarfarnu agweddau penodol o'i gwaith. Darparwyd yr amserlen fonitro dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r drefn yn cynnwys awdit o sefyllfa gyfredol yr ysgol drwy arsylwi gwersi, edrych ar waith disgyblion o fewn y llyfrau, siarad â hwy a dadansoddi data diwedd cyfnod allweddol.

Mae'r staff yn trafod cyflawniad ac anghenion y disgyblion bron yn ddyddiol. Cofnodir targedau a chyflawniad unigolion ar daflenni tracio cynnydd. Derbynnir cyfraniadau hefyd gan rieni, lywodraethwyr a disgyblion. Defnyddir y dystiolaeth i ddarparu adroddiad hunanarfarnu cynhwysfawr ond nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol nac yn cydnabod yn ddigonol yr elfennau sydd angen eu datblygu.

Mae'r Cynllun Gwella Ysgol yn ddefnyddiol yn y broses o gofnodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r ysgol, a ddaw i'r amlwg trwy'r prosesau hunanarfarnu. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys manylion pellach fel y targedau ar gyfer gweithredu, amserlen weithredu ynghyd â'r meini prawf llwyddiant.

Ymatebwyd yn effeithiol i argymhellion tod yr arolygiad diwethaf, yn enwedig safonau yn y Gymraeg.

Mae trefn yr ysgol o arsylwi'r addysgu o ddosbarth i ddosbarth yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i arbrofi â'r dulliau diweddaraf o gyflwyno gwesi ac yn effeithio'n gadarnhaol ar gyflawniadau disgyblion. Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos iawn ag ysgolion cyfagos. Mae'n rhan o gymuned ddysgu broffesiynol sy'n galluogi'r athrawon i gyfarfod i drafod cynllunio ac i rannu arfer dda. Cydweithir hefyd â dwy ysgol arall i rannu arbenigeddau cwricwlaidd trwy gyfnewid athrawon a thrwy ddod a'r disgyblion at ei gilydd yn wythnosol.

Mae'r partneriaethau hyn yn dylanwadu'n bositif ar gynllunio ac ar ddatblygu'n effeithiol yr arferion diweddaraf mewn addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae yna bartneriaeth gref rhwng y rhieni a'r ysgol. Daw nifer ohonynt i mewn i weithio gyda'r disgyblion ar agweddau gwahanol o'r cwricwlwm gan gynnwys gwaith celf, plannu blodau a chrochenwaith. Mae gan yr ysgol Gymdeithas Ffrindiau gref sy'n gefnogol iawn ac sy'n cynnal gweithgareddau rheolaidd i godi arian.

Mae'r ysgol â chyswllt da gyda'r gymuned leol. Cymer y disgyblion ran mewn digwyddiadau lleol a gwahoddir aelodau o'r gymuned i mewn i'r ysgol yn achlysurol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Derbynnir cymorth a chyngor gan asiantaethau arbenigol yr awdurdod lleol fel y gwasanaeth seicolegol addysg a'r swyddogion addysg.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio effeithiol iawn ar gyfer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd. Mae'r amrywiol gysylltiadau a chyfleoedd ymweld yn gymorth priodol i helpu'r disgyblion ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r cyllid sydd ar gael iddi trwy gydgyfrannu cyllid gyda ysgolion y clwstwr i gynnig hyfforddiant mewn swydd ac i rannu cyfrifoldebau cwricwlaidd. Mae hyn yn un o gryfderau amlwg yr ysgol hon ac yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae trefniadau strwythuredig yn bodoli ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar lefel dalgylch yr ysgol uwchradd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae adnoddau staffio ac adnoddau ariannol yr ysgol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi gwella cyflawniadau disgyblion. Mae digon o staff

dysgu a staff cynorthwyol profiadol i ymdrin â gwaith yr ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau cefnogaeth briodol i'r dysgwyr ac i greu amgylchedd hapus, diogel ac ysgogol ar eu cyfer.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithlon o'u hamser gan gynnwys cyfnodau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu sy'n cael effaith gadarnhaol ar safon y cynllunio. Defnyddir arbenigeddau staff i gefnogi o fewn meysydd yn yr ysgol ei hun ac ar draws y clwstwr ysgolion.

Mae digon o adnoddau o safon dderbyniol ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion. Er bod adeilad yr ysgol yn cynnig rhwystrau amlwg, manteisir yn llawn ar yr hyn sydd ar gael er mwyn sicrhau profiadau symbylus ar gyfer y disgyblion.

Gwneir llawn ddefnydd o'r cyllid sydd ar gael i geisio ymateb i'r blaenoriaethau o fewn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried cynnydd a deilliannau da'r dysgwyr, ynghyd â'r rhannu adnoddau effeithiol gydag ysgolion eraill cyfagos.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i holiaduron rhieni

Llenwyd yr holiadur gan fwyafrif mawr o’r rhieni.  Maent yn gadarnhaol dros ben ynglŷn â’r ysgol.  Mae’r pob un ohonynt yn fodlon â’r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn hapus yno.  Yn ogystal, mae pawb yn teimlo’n gyfforddus bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod yr addysgu yn dda.  Mae pob un yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac maent o’r farn bod y staff yn bobl hawdd iawn mynd atynt os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.  Mae pawb yn glir ynglŷn â gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer delio â chwynion.  Mae pob un o’r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu’n dda am gynnydd eu plant ac yn meddwl bod disgyblion yn ymddwyn yn dda.

### Ymatebion i holiaduron dysgwyr

Llenwodd pob un o’r dysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yr holiadur ac roeddent yn hapus iawn â’u hysgol.  Mae pob un ohonynt yn teimlo bod yr addysgu yn dda, eu bod yn cael eu cefnogi’n dda yn yr ysgol a’u bod yn gwneud yn dda.  Mae’r disgyblion yn credu bod digon o adnoddau i’w galluogi i ddysgu’n dda.  Mae pawb a ymatebodd yn teimlo’n ddiogel a bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw achosion o fwlio.  Mae pob un ohonynt o’r farn eu bod yn cael eu hannog i ymgymryd â chyfrifoldebau.  Cytunant yn llwyr fod yr ysgol yn helpu disgyblion i fyw yn iach ac mae pob un ohonynt yn meddwl bod ymddygiad yn dda.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alun Morgan | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Goronwy Morris | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elin Watkins | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |